

**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 16eg Ionawr 2019 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain-Jones, Ms. J. Hughes, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, B. Mellor, Ms. V. Roberts, ac R. Turner.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

#### 45. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Oherwydd absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, fe

**BENDERFYNWYD** penodi'r Cyngorydd B. Mellor yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn.

#### 46. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield, Mrs. P.M. Jones, Ms. J. McAlpine, Mrs W. Mullen James, Miss S. Roberts, A. Rutherford, a Miss C.L. Williams.

#### 47. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

**Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.**

#### **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO**

47.1 **LLEOLIAD Y SAFLE** R.C. Church, Ffynnongroew Road, y Rhyl.

**WARD:** Foryd

**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. J. Butterfield  
A.R. James

**RHIF Y CAIS:** 45/2018/1055

**DISGRIFIAD:** Newidiadau i borth mynediad blaen, darparu ramp a gwaith cysylltiedig.

**YMGEISWYR** : Y Parchedig Charles Ramsey o 119 Ffordd Wellington, y Rhyl.

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad

47.2	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> 16A Ffordd Wellington, y Rhyl</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Bodfor</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> Ms J. Hughes Ms J. McAlpine</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2018/1140</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Newid defnydd lloriau cyntaf ac ail i ffurfio tŷ annedd</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mr. R. Singe 39-41 Kinmel Street, y Rhyl</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Gwrthwynebu am y rhesymau canlynol:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. <i>Colli man Adwerthu Dosbarthu A1 yn groes i amcan Polisi PSE8.</i></li> <li>2. <i>Mae'r "cynllun presennol" yn dangos mynedfa ar wahân i 16A y credir iddo gael ei adeiladu heb ganiatâd cynllunio</i></li> <li>3. <i>Ystyrir bod adeiladu'r fynedfa ar wahân yn niweidiol i ddefnyddio 16 Ffordd Wellington fel uned fanwerthu oherwydd colli lle manwerthu.</i></li> <li>4. <i>Mae'r "cynllun arfaethedig" yn dangos man storio ar gyfer 16 Ffordd Wellington y gellir ond ei ddefnyddio drwy'r fynedfa arfaethedig i 16A Ffordd Wellington.</i></li> <li>5. <i>Annerbyniol o ran lle mwynderau i'r deiliaid yn groes i Bolisi RD1. – Gellir ond defnyddio'r storfa biniau ar gyfer, mae'n debyg, 16 ac 16A Ffordd Wellington trwy'r Storfa ar gyfer 16 Ffordd Wellington.</i></li> <li>6. <i>Pryder ynglŷn ag absenoldeb dull addas o ddianc os oes tân.</i></li> </ol>
47.3	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> Tir yn Ne-ddwyrain y Rhyl rhwng Bro Deg a Ffordd Dyserth, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Trellewelyn</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> A.S. Johnson Mrs. W. Mullen-James Ms. V. Roberts</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2018/1158</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Newid mathau o dai ar leiniau 272 -275 a 279 – 282 a chreu llain ychwanegol 274 (newid i'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer cyfnodau 2 a 3, cyf 45/2011/0766)</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Anwyl Homes</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
47.4	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> Tir yn Ne-ddwyrain y Rhyl rhwng Bro Deg a Ffordd Dyserth, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Trellewelyn</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> A.S. Johnson Mrs. W. Mullen-James Ms. V. Roberts</p>

**RHIF Y CAIS:** 45/2018/1215

**DISGRIFIAD:** Adeiladu 96 o dai annedd a gwaith cysylltiedig.

**YMGEISWYR :** Anwyl Homes

**PENDERFYNIAD:** *Gwrthwynebu oni ddiwallir y canllynol:*

- *Darpariaeth glir mewn unrhyw ganiatâd yn nodi pryd y bydd y manteision cymunedol gan gynnwys man agored, canolfan gymunedol ac ysgol newydd sy'n ofynnol dan Gais Cynllunio rhif 45/2004/1376/PO yn cael eu cyflenwi er budd deiliaid presennol a deiliaid y datblygiad cynharach a'r datblygiad arfaethedig yn y dyfodol.*
- Ni all y Cyngor gefnogi unrhyw adeiladu ychwanegol nes bydd y materion traffig sy'n effeithio cyffordd "Pen y Maes" y B5119 a "Throeon Dyserth" wedi eu trin cyn i neb fyw mewn unrhyw dai annedd newydd er budd deiliaid arfaethedig a chymuned ehangach y Rhyl.
- Unrhyw gymeradwyaeth i gynnwys darparu mynediad at lwybrau bws lleol i wasanaethu'r datblygiad gan gynnwys darparu llochesi bws/arosfannau er budd y deiliaid ac i'w darparu gan y developer.

#### 48. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: .....

Dyddiad: .....